**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd
Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd
Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi

10 Hydref 2022

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24

Annwyl Weinidogion

Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi dechrau paratoi ar gyfer y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Rydym yn deall y bydd y gyllideb ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar 13 Rhagfyr 2022, ac felly rydym yn rhagweld y byddwn yn cynnal sesiwn graffu gyda chi yn gynnar yn 2023. Bydd y tîm Clercio yn cysylltu â'ch swyddfa maes o law i drefnu dyddiad addas ar gyfer y sesiwn.

Er mwyn helpu'r Pwyllgor gyda'i baratoadau, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn Atodiad 1 cyn y sesiwn graffu. Yn amlwg, nid oes rhaid ichi gyfyngu eich ymateb i'r cais hwn, ac mae croeso ichi fynd i'r afael ag unrhyw faterion eraill y byddent, yn eich barn chi, o gymorth i'r Pwyllgor wrth ei waith.

Byddem yn hapus i dderbyn un ymateb cydgysylltiedig, neu os byddai'n well gennych, ymatebion ar wahân yn mynd i'r afael â'r materion o fewn eich meysydd cyfrifoldeb unigol.

Rwyf wedi gofyn i'r tîm Clercio gysylltu â'ch swyddogion ynghylch terfyn amser pendant.

Yn gywir

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

## Gwariant ataliol

Manylion am gyfran cyllideb y portffolio a ddyrannwyd ar gyfer camau gwariant ataliol a sut y mae'r gyfran wedi cynyddu o'i chymharu â chyllideb y llynedd.

Manylion am ba bolisïau neu raglenni penodol yn y portffolio y bwriedir iddynt fod yn ataliol.

## Llunio polisïau yn seiliedig ar dystiolaeth

Eglurhad o sut rydych wedi defnyddio tystiolaeth wrth flaenoriaethu dyraniadau eich cyllideb ddrafft a sut y byddwch yn monitro ac yn arfarnu rhaglenni i sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian ac yn llywio prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol.

Manylion am sut y mae'r gwaith o ddatblygu'r gyllideb ddrafft wedi'i lywio a sut y dylanwadwyd arno o ganlyniad i ymgynghori â rhanddeiliaid.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Enghreifftiau o sut mae'r Ddeddf wedi llywio penderfyniadau ar ddyraniadau penodol yn y gyllideb.

Manylion am sut mae'r broses asesu effaith wedi dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys enghreifftiau o ble mae penderfyniad wedi cael ei asesu yn erbyn amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

## Cydraddoldeb, y Gymraeg ac asesu hawliau plant

Manylion am sut rydych wedi ystyried effaith y gyllideb ddrafft ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig ac ar y Gymraeg, gan gynnwys manylion am unrhyw asesiadau effaith perthnasol.

Manylion am sut y mae hawliau plant wedi cael eu hystyried yn y penderfyniadau cyllideb ar gyfer y portffolio.

## Ymateb i'r argyfwng costau byw

Eglurhad ynghylch a yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng costau byw wedi llywio eich dyraniadau cyllideb ddrafft, a sut.

## Deddfwriaeth

Dyraniadau'r gyllideb ar gyfer gweithredu deddfwriaeth newydd a deddfwriaeth arfaethedig, gan gynnwys:

- Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru);

- rheoliadau i gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros ddeunydd pacio plastig;
- y Bil Diogelwch Tomenni Glo arfaethedig;
- y Bil Aer Glân arfaethedig;
- y Bil Cydsynio Seilwaith Cymru arfaethedig.

### Y Rhaglen Lywodraethu

Eglurhad o sut mae dyraniadau'r gyllideb yn eich portffolio yn cyd-fynd ag ymrwymiadau a blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu.

### Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur

Eglurhad o sut mae datganiad Llywodraeth Cymru o argyfyngau 'hinsawdd' a 'natur' wedi dylanwadu ar y broses o bennu'r gyllideb eleni.

Eglurhad o sut rydych wedi gweithio gyda'ch cydweithwyr yn y Cabinet i sicrhau bod yr amgylchedd, colli bioamrywiaeth a newid hinsawdd wedi bod yn ganolog i'r broses o bennu'r gyllideb.

### Datgarboneiddio

Eglurhad o sut mae dyraniadau'r gyllideb yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r polisïau a'r cynigion yn Cymru Sero Net, sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn.

Eglurhad o'r gwaith a wnaed i amcangyfrif effaith carbon y penderfyniadau gwario a sut mae hyn wedi dylanwadu ar y dull o ddyrannu.

Y diweddaraf am y gwaith i gysoni'r cyllidebau cyllidol a charbon.

### Strwythur y gyllideb

Dadansoddiad o gyllideb ddrafft 2023-24, ac unrhyw gyllidebau dangosol yn y dyfodol, fesul Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, o ran refeniw a chyfalaf, ynghyd â dyraniadau Cyllideb 2022-23 fel cymhariaeth.

Disgrifiad naratif o'r meysydd polisi a ariennir drwy bob Llinell Wariant yn y Gyllideb.

Crynodeb o unrhyw newidiadau a wnaed yn strwythur a chyflwyniad y gyllideb o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, gan gynnwys manylion am sut y mae unrhyw Feysydd Rhaglen Wariant newydd neu a ad-drefnwyd, Camau Gweithredu Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn ymwneud â'r rhai a ddefnyddiwyd yn 2022-23, a sicrhau y gellir cymharu dyraniadau 2023-24 â blynyddoedd blaenorol.

Trafnidiaeth

Sut y mae'r gyllideb ddrafft yn cefnogi blaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, yn enwedig cyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a’r cynlluniau cyflawni a strategaethau cysylltiedig, gan gynnwys sut rydych wedi blaenoriaethu cyllid, fforddiadwyedd eich blaenoriaethau ac unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Sut y mae’r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer:

- Adfer trafnidiaeth gyhoeddus yn dilyn y pandemig, gan gynnwys cymorth i weithredwyr ac effaith y pandemig Coronafeirws ac adferiad ohono, gan gynnwys cymorth i ddarparwyr trafnidiaeth.
- Cyflwyno'r fasnachfraint rheilffyrdd.
- Cyflwyno Metros Gogledd-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.
- Cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith rheilffyrdd.
- Datblygu Trafnidiaeth Cymru – gan gynnwys dadansoddiad o ddyraniad cyllideb llawn Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y flwyddyn, gan nodi ei gyllideb gorfforaethol ochr yn ochr â dyraniadau ar gyfer darparu rhaglenni penodol.
- Argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru.
- Buddsoddi yn y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd. Yn benodol, sut y mae canlyniad yr adolygiad ffyrdd wedi llywio’r dyraniadau, a sut y mae unrhyw gyllid ffyrdd wedi’i ailddyrannu.
- Cyflwyno polisi teithio llesol – gan gynnwys tabl sy'n manylu ar gyfanswm y dyraniadau a dyraniadau fesul pen o’r boblogaeth ar gyfer teithio llesol ar gyfer 2023-24, o gymharu â phob un o'r tair blynedd flaenorol. Dylai dyraniadau refeniw a chyfalaf fod yn glir ac wedi'u nodi yn ôl ffrwd ariannu unigol (cronfa teithio llesol, cronfa trafnidiaeth leol, llwybrau diogel mewn cymunedau ac ati).
- Cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol, gan gynnwys tabl sy'n manylu ar gyfanswm y dyraniadau a’r dyraniadau fesul pen o’r boblogaeth ar gyfer 2023-24 o gymharu â phob un o'r tair blynedd flaenorol. Dylai dyraniadau refeniw a chyfalaf fod yn glir a dylai'r tabl gael ei rannu yn ôl ffrwd ariannu unigol (Grant Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau, BES2, Tocynnau Teithio Rhatach ac ati).
- Cefnogi blaenoriaethau trafnidiaeth lleol.

## Ynni a gwella effeithlonrwydd ynni

Sut y mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer:

- Polisïau a rhaglenni i gefnogi datgarboneiddio yn y sector tai, gan gynnwys dyraniadau ar gyfer Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.
- Cyflwyno rhaglenni ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni'r sector cyhoeddus, gan gynnwys cyllid ar gyfer Gwasanaeth Ynni Cymru.
- Gweithredu argymhellion a chamau gweithredu sy'n deillio o waith ymchwil manwl Llywodraeth Cymru ar ynni adnewyddadwy.
- Datblygu cynigion ar gyfer Ynni Cymru.

## Yr amgylchedd

Sut y mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer:

- Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, gan gynnwys rheoli a monitro'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol.
- Rhaglen Rhwydweithiau Natur, Lleoedd Lleol i Natur, y rhaglen Gweithredu Mawndiroedd Cenedlaethol a Natur am Byth.
- Canlyniadau gwaith ymchwil manwl Llywodraeth Cymru i fioamrywiaeth a'r ymrwymiadau a ragwelir yn COP15.
- Gweithredu'r gwaith 'Adferiad Gwyrdd', gan gynnwys y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol.
- Llenwi bwlch cyllid LIFE yr UE yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.
- Datblygu'r Parc Cenedlaethol newydd i gynnwys Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
- Cyflawni'r Cynllun Aer Glân.
- Gweithredu Strategaeth Coetiroedd i Gymru, gan gynnwys Strategaeth y Goedwig Genedlaethol.
- Gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, gan gynnwys y rhaglen Rheoli Perygl Arfordiroedd.

- Datblygu trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol, a gwaith yr Asesydd Dros Dro ar gyfer Diogelu'r Amgylchedd.
- Cyflawni'r Cynllun Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

### Cyfoeth Naturiol Cymru

Manylion am ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys:

- sut y mae datblygiad y gyllideb ddrafft wedi'i lywio a'i ddylanwadu gan unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad sylfaenol, a
- chyllid ar gyfer y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr.

### Seilwaith digidol

Manylion am gyfanswm cyfraniad Llywodraeth Cymru i'r cynllun i olynu Cyflymu Cymru, gan gynnwys targedau contract perthnasol ar gyfer BT/Openreach a pherfformiad tuag at y targedau hyn.

Manylion am y cyllidebau a ddyrennir i gynlluniau cysylltedd eraill Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Allwedd Band Eang Cymru a'r Gronfa Band Eang Lleol) a thargedau cysylltedd sydd gan y cynlluniau hyn.

Manylion am unrhyw gyllideb a ddyrennir i wella cysylltedd symudol.

Gweithredu Strategaeth Ddigidol i Gymru a'r cynllun cyflawni, a'r dyraniad ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.

Targedau cyffredinol band eang a chysylltedd symudol, ac a yw'r cyllid cyfun gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ddigonol i gyrraedd y targedau hyn.

### Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

Manylion am y dyraniadau cyllideb ar gyfer Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.